Marc yn ôl datganiad yr ymgeisydd

# Ethol I Gynulliad Cenedlaethol Cymru: Ffurflen gwariant etholiad yr ymgeisydd

Am wybodaeth lawn am sut i lenwi'r ffurflen hon a sut i gategoreiddio gwariant etholiad, cynghorir chi I ddarllen nodiadau esboniadol diweddaraf y Comisiwn.

Etholiad yn [etholaeth] [rhanbarth etholiadol y Cynulliad yn] (1) ______________________________

Dyddiad yr etholiad ______________________________

Dyddiad datgan canlyniad yr etholiad ______________________________

Enw llawn yr ymgeisydd ______________________________

Dyddiad y daeth y person yn ymgeisydd (2) ______________________________

Plaid gofrestredig (os yn berthnasol) ______________________________

Terfyn uchafswm treuliau statudol yr ymgeisydd hwn £______________________________

Ar sail etholaeth o (3) ______________________________

Enw'r asiant etholiad ______________________________ Dyddiad penodi ______________________________

**1. Fi yw'r person a enwir [fel asiant etholiad ar gyfer yr etholiad hwn] [fel ymgeisydd ar gyfer yr etholiad hwn, a fi oedd fy asiant etholiad fy hun] (1).**

**2. Yr wyf drwy hyn yn cyflwyno'r ffurflen hon ar wariant etholiad [yr ymgeisydd] [myfi fy hun] (1) ar gyfer yr etholiad hwn.**

Llofnod yr asiant ______________________________ Dyddiad______________________________

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno i'r swyddog canlyniadau o fewn 35 diwrnod I ddyddiad datgan canlyniad yr etholiad a rhaid cynnwys datganiad ar wahân wedi 'i lofnodi gan yr asiant etholiad yn dilysu'r ffurflen hon.

O fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y cyflwynir y ffurflen hon, rhaid i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno datganiad wedi'i lofnodi yn dilysu'r ffurflen hon.

Ni ddylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad ar restr ranbarthol ar ran plaid. Dylid cynnwys holl wariant yr ymgeiswyr hynny ar ffurflen gwariant ymgyrch y blaid.

(1) Dylech ddileau yr un amherthnasol.

(2) Gweler erthygl 84 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

(3) Y gofrestr etholwyr berthnasol yw'r gofrestr etholwyr ar gyfer yr ardal etholiadol fel ag yr oedd ar ddiwrnod olaf cyhoeddi'r hysbysiad ar gyfer yr etholiad.

| **Rhan 1: Crynodeb o'r gwariant** | | |
|---|---|---|
| 1a: Mathau o daliadau | | |
| Dull y taliad | £ | c |
| Hawliadau heb eu talu | | |
| Hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch | | |
| Gwerth y gwariant tybiannol | | |
| Taliadau a wnaed | | |
| **Cyfanswm y gwariant ar yr etholiad*** | | |
| 1b: Categorïau'r gwariant | | |
| Pwrpas | £ | c |
| A. Hysbysebu | | |
| B. Deunydd a anfonwyd at etholwyr | | |
| C. Cludiant | | |
| D. Cyfarfodydd cyhoeddus | | |
| E. Costau asiant a chostau staff eraill | | |
| F. Llety a gweinyddu | | |
| **Cyfanswm y gwariant ar yr etholiad*** | | |

* dylai'r cyfansymiau yn 1a ac 1b fod yr un fath

Dalier sylw: ni ddylech gynnwys treuliau personol yn adran 1a na 1b, dylid rhoi'r symiau hyn yn adran 4.

Nid yw blaendal yn cael ei ystried i fod yn draul etholiad ac ni ddylid ei gynnwys ar y ffurflen hon.

Dylai pob eitem wariant ymddangos mewn un categori yn unig.

Dylai'r blwch 'taliadau a wnaed' gynnwys, eitemau wedi eu talu amdanynt gan yr asiant etholiad, taliadau a wnaed gan yr ymgeisydd cyn penodi'r asiant, mân wariant wedi'i awdurdodi gan yr asiant, eitemau gwariant o dan erhygl 46 (gweler Rhan 3) a gwariant cyn i'r person ddod yn ymgeisydd ar eitemau a ddefnyddiwyd dros y cyfnod rheoledig.

Dylid cymhwyso pob eitem wariant i un pwrpas yn unig. Er ei bod yn hawdd categoreiddio rhai eitemau, bydd eraill efallai'n gysylltiedig â mwy nag un pwrpas. Yn yr achosion hyn rhaid ichi farnu o dan ba bwrpas i gynnwys yr eitem dan sylw. Fel rheol, dylid gosod eitemau o dan y pwrpas y byddent yn disgyn yn naturiol iddo, e.e. dylid cynnwys costau cludiant yr ymgeisydd o dan drafnidiaeth, hyd yn oed os yw'r drafnidiaeth mewn cysylltiad â chymryd rhan mewn cyfarfod cyhoeddus; dylid cynnwys deunyddiau cyhoeddusrwydd e.e. balŵns, o dan hysbysebu, hyd yn oed os cawsant eu dosbarthu mewn digwyddiad.

Pwrpas A: Mae hysbysebu o unrhyw fath (drwy ba bynnag gyfrwng e.e. posteri neu mewn papur newydd) yn cynnwys ffioedd asiantaeth, costau dylunio ac unrhyw gostau mewn cysylltiad a pharatoi cynhyrchu, dosbarthu neu fel arall ledaenu hysbysebu neu unrhyw beth yn ymgorffori hysbysebu.

Pwrpas B: Mae deunydd digymell wedi'i gyfeirio at etholwyr (p'un ai wedi ei gyfeirio at neu i'w ddanfon at yr holl etholwyr yn yr ardal) yn cynnwys costau dylunio a'r hol gostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu a dosbarthu deunydd o'r fath (gan gynnwys costau postio, ond ac eithrio unrhyw hawl i anfon anerchiad etholiadol drwy radbost).

Pwrpas C: Mae cludiant yn cynnwys costau llogi ond yn eithrio defnydd a wnaed o geir personol lle nad yw'r perchennog wedi codi am hynny.

Pwrpas D: Mae cyfarfodydd cyhoeddus yn cynnwys costau mewn cysylltiad â phobl yn mynychu cyfarfodydd, llogi adeiladau iI bwrpas cyfarfodydd, neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.

Pwrpas E: Gwasanaethau asiant etholiad neu unrhyw un arall lle defnyddir eu gwasanaethau mewn cysylltiad ag etholiad yr ymgeisydd.

Pwrpas F: Costau llety a gweinyddol.

**Rhan 2: Dadansoddiad o'r gwariant**

Dylech ddarparu manylion yr holl wariant sy'n cyfrannu at ffigur cyfanswm y gwariant ar yr etholiad.
I ganiatau croesgyfeirio rhwng pob eitem wariant sy'n cael ei hadrodd yma, a'r is-gyfansymiau categori yn Rhan 1b, i sicrhau bod y cyfeirnod categori cywir yn cael ei ddarparu ar gyfer pob eitem sy'n cael ei hadrodd.

| Eitem rhif | Pwrpas (A-F) (gwele r Rhan 1b) | Derbynneb neu anfoneb wedi'i chyflwyno [1] (Do/ Naddo) | Eitem/ Gwasanaeth | Enw'r cyflenwr (a'r cyfeiriad os nad yw ar y dderbynneb/ afoneb) | Enw'r person a wnaeth y taliad | Dyddiad yr achoswyd y traul | Dyddiad derbyn y dderbyn neb | Dyddiad y talwyd y traul | Gwerth yr eitem [2] £ | Swm a dalwyd (dim ond os yw hyn yn wahanol I'r gwerth ac yn nodi lle'r oedd y swm a dalwyd yn nil) | Heb ei dalu neu anghydfod yn ei gylch [3] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |
| | | | Cyfanswm Rhan 2 (dylai fod yr un fath â'r cyfansymiau yn Rhan 1) | | | | | | | | |

Dalier sylw: Dylid rhestru pob eitem wariant ar wahân. Os nad oes digon o le ar y dudalen hon, dylid defnyddio dalen arall.

(1) Mae angen derbynneb neu anfoneb ar gyfer pob eitem wariant dros £20 ar wahân i wariant tybiannol.

(2) Ar gyfer gwariant tybiannol, rhowch werth marchnad llawn yr eitem neu'r gwasanaeth. Mewn achosion eraill, rhowch y swm a dalwyd.

(3) Nodwch a ydw'r hawliad heb ei dalu neu a oes anghydfod yn ei gylch. Ar gyfer hawliadau heb eu talu/ lle mae angyhdfod yn eu cylch, dylech ddefnyddio dalen ar wahân i roi'r wybodaeth ganlynol arni:

Hawliadau heb eu talu: enw'r llys gwnaed/ bwriedir gwneud cais iddo, a dyddiad y ceisiadau;

Hawliadau lle mae anghyfod yn eu cylch; natur yr anghydfod a'r camau sydd i'w cymryd.

**Rhan 3: Datganiad ar yr holl wariant sydd wedi'i adrodd – mae hefyd angen ichi ddychwelyd ffurflen ar gyfer hyn o dan erthygl 46**

| | Swm | | Enw'r person a achosodd y gwariant |
|---|---|---|---|
| | £ | c | |
| | | | |
| Cyfanswm | | | |

Rhaid i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig i achosi gwariant, ar wahân i fân wariant, o dan erthygl 46 erthygl 46 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, gyflwyno ffurflen yn nodi'r gwariant hwnnw i'r swyddog canlyniadau o fewn 21 diwrnod i ddyddiad datgan canlyniad yr etholiad.

Os gwelwch yn dda, rhowch fanylion y gwariant hwn yn y gofod a ddarperir. Rhaid hefyd cynnwys yr eitemau hyn yn Rhannau 1 a 2.

O dan erthygl 46, gellir awdurdodi unrhyw berson i achosi gwariant etholiad, ond nid i wneud taliadau.

**Rhan 4: Datganiad ar yr holl dreuliau personol a achoswyd**

| Eitem | Enw'r person a wnaeth y taliad (h.y. ymgeisydd neu'r asiant etholiad) | Swm | | Dyddiad yr achoswyd y traul | Dyddiad derbyn y derbynneb | Dyddiad y talwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | c | | | |
| | | | | | | |
| | Cyfanswm | | | | | |

Dalier sylw: Treuliau personol yw treuliau teithio a byw rhesymol yr ymgeisydd I bwrpas ac yng nghyswllt yr etholiad.

**Nid yw** treuliau personol yn cyfrif yn erbyn terfyn treuliau'r ymgeisydd ac ni ddylid cynnwys eitemau yn rhan 4 yn Rhannau 1 a 2.

**Rhan 5: Rhoddion**

| | | |
|---|---|---|
| 5a | Swm (os oes un) a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gwrdd â'r gwariant ar yr etholiad | £ |
| 5b | Cyfanswm gwerth yr holl roddion hyd at £50 (nid yw hyn yn cynnwys rhoddion tybiannol) | £ |

5c Rhoddion (dros £50) gan gynnwys rhoddion gan bleidiau etholiadol a rhoddion tybiannol

Rhoddion a ganiateir a dderbyniwyd (cofiwch ar gyfer rhoddion gan ymddiriedolaethau wedi'u heithrio, fod angen dalen ar wahân yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol).

| Enw, cyfeiriad a statws y rhoddwr (Rhif cofrestru'r cwmni, os yn berthnasol) | Dyddiad | | Swm yr arian/ gwerth | | Natur (os tybiannol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Derbyniwyd | Wedi'i dderbyn | £ | c | |
| | | | | | |
| | | Cyfanswm | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm 5a,5b a 5c<br>(dylai fod yn fwy na neu yr un fath â chyfanswm y gwariant yn Rhan 1) | |

5d Rhoddion a dderbyniwyd gan roddwyr nas caniateir/ anhysbys.

| Enw a chyfeiriad y rhodwr (os yw'n wybyddus) neu sut y gwnaed y rhodd | Dyddiad y derbyniwyd | Swm yr arian/ gwerth | | Natur | Dyddiad a sut yr ymdriniwyd â'r rhodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | c | | |
| | | | | | |